Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Yr Amgylchedd
## Adroddiad Monitro Brexit

31 Ionawr – 2 Ebrill 2019



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: **www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Yr Amgylchedd
## Adroddiad Monitro Brexit

31 Ionawr – 2 Ebrill 2019

**Awduron:**
Elfyn Henderson, Francesca Howorth, Katy Orford, Chloe Corbyn, Lorna Scurlock, Robert Byrne a Siân Davies

Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Robert Byrne gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol, a alluogodd i'r adroddiad monitro hwn gael ei gwblhau.

**Trosolwg o'r papur:**
Bydd Brexit yn dod â newidiadau sylweddol ym maes polisi amgylcheddol. Mae Ymchwil y Senedd wedi paratoi'r adroddiad monitro hwn ar gyfer Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad. Mae'n rhoi diweddariad ar ddatblygiadau Brexit diweddar sy'n bwysig o ran polisi amgylcheddol yng Nghymru.

Y Cynulliad a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** ....... 1

**2. Camau gan yr UE** ....... 2

**3. Camau gan Lywodraeth y DU** ....... 3

**4. Camau gan Lywodraeth Cymru** ....... 7

**5. Camau gan Lywodraeth yr Alban** ....... 9

**6. Camau gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** ....... 10

**7. Camau eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol** ....... 12

**8. Camau gan ddeddfwrfeydd eraill yn y DU** ....... 13

**9. Ffynonellau allweddol eraill** ....... 15

**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar ddatblygiadau diweddar yn ymwneud â Brexit ym maes polisi amgylcheddol. Fe'i paratowyd gan Senedd Ymchwil ar gyfer **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** y Cynulliad ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 31 Ionawr a 2 Ebrill 2019. Mae'r **adroddiad blaenorol** yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 10 Tachwedd 2018 a 30 Ionawr 2019.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r trafodaethau rhwng y DU a'r UE a datblygiadau o fewn y DU sy'n effeithio ar y maes polisi amgylcheddol. Mae'n canolbwyntio ar weithgareddau:

- sefydliadau'r UE;
- llywodraethau a deddfwrfeydd y DU; ac
- yn darparu ffynonellau gwybodaeth allweddol eraill.

I gael trosolwg llawn o'r trafodaethau yn ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE, gweler adroddiadau cyffredinol Senedd Ymchwil, **Adroddiadau Monitro ynglŷn â Gadael yr UE ar Wybodaeth Ddiweddaraf**, sydd wedi'u paratoi ar gyfer **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Cynulliad. Mae gwybodaeth hefyd ar gael ar y tudalennau gwe y **Cynulliad a Brexit.**

# 2. Camau gan yr UE

Ar 25 Mawrth, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **ddatganiad i'r wasg yn nodi ei fod wedi cwblhau ei baratoadau ar gyfer y posibilrwydd o Brexit dim cytundeb ar 12 Ebrill.**

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ragor o hysbysiadau parodrwydd Brexit:

- **Cyfraith bwyd yr UE** (PDF 389KB), sy'n disodli'r hysbysiad blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018;
- **Canllawiau ar faterion tollau tramor os bydd dim cytundeb** (PDF 458KB);
- **Canllawiau ar dollau cartref ar gyfer parhau i symud nwyddau** (PDF 401KB); a
- **Rheolau'r UE ar ddyled tollau a thariffau tollau** (PDF 193 KB).

## Lles anifeiliaid

Ar 1 Chwefror, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd hysbysiad parodrwydd Brexit ynghylch **cynhyrchion meddyginiaethol i'w defnyddio ar bobl ac anifeiliaid** (PDF 165KB) a rhai **cwestiynau ac atebion** cysylltiedig (PDF 607KB). Mae'n disodli'r hysbysiad blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2018.



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

# 3. Camau gan Lywodraeth y DU

## Ansawdd aer

Ar 14 Chwefror, lansiodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig **ymgynghoriad ar Raglen Genedlaethol Rheoli Llygredd Aer y DU (NAPCP).** Mae'r *Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018* yn trosi rhwymedigaethau yng Nghyfarwyddeb yr UE ar leihau allyriadau cenedlaethol llygryddion penodol i gyfraith ddomestig. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi a chyhoeddi Rhaglen Genedlaethol Rheoli Llygredd Aer y DU erbyn 1 Ebrill 2019.

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 11 Chwefror, gosododd Llywodraeth y DU y **Rheoliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** yn Senedd y DU o dan y weithdrefn negyddol. Mae'r rheoliadau'n newid deddfwriaeth ar daliadau uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) i greu fframwaith taliadau uniongyrchol ar gyfer y DU.

Ar 26 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hysbysiad ar y **goblygiadau i fusnes a masnach yn sgil Brexit dim cytundeb ar 29 Mawrth**. Mae'r hysbysiad yn nodi:

- byddai'r effeithiau ar sector bwyd a diod y DU yn fwy amlwg yng Nghymru, yr Alban, ac yn arbennig yng Ngogledd Iwerddon, nag yn Lloegr;
- byddai diwydiant cig oen Cymru yn debygol o deimlo aflonyddu ar allforion anifeiliaid yn gryf (mae 92% o allforion cig oen Cymru yn ôl gwerth yn mynd i'r UE); a
- byddai oedi ar groesiadau byr Môr Udd yn effeithio ar lai nag un o bob 10 eitem bwyd ac, yn absenoldeb camau eraill gan y Llywodraeth, mae rhai prisiau bwyd yn debygol o gynyddu.

Ar 28 Chwefror, fe wnaeth **George Eustice ymddiswyddo** fel y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd oherwydd y modd y mae'r Prif Weinidog yn ymdrin â'r broses Brexit. Ar 5 Mawrth, cyhoeddwyd y byddai Robert Goodwill **yn cymryd ei le**.

## Lles anifeiliaid

Ar 20 Chwefror, fe wnaeth Llywodraeth y DU **gyhoeddi datganiad i'r wasg yn annog busnesau i baratoi ar gyfer newidiadau i fewnforio ac allforio anifeiliaid yn achos Brexit dim cytundeb**. Cyhoeddwyd **canllawiau newydd** ochr yn ochr â'r datganiad i'r wasg, gyda'r nod o sicrhau y gall y fasnach mewn mewnforio ac allforio anifeiliaid barhau, a bod safonau uchel o ran lles anifeiliaid yn parhau.

## Ynni

Ar 6 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ganllawiau ar ynni a hinsawdd ar ôl Brexit.** Mae'r canllawiau yn nodi newidiadau posibl i feysydd, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, y diwydiant niwclear ac allyriadau carbon a reoleiddir.

Ar 11 Mawrth, fe wnaeth Claire Perry, y Gweinidog Ynni a Thwf Glân, **gyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar ynni**. Mae'n nodi y byddai Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer estyniad byr i'r dyddiad cau ar gyfer gweithredwyr y DU sy'n cymryd rhan yng Nghynllun Masnachu Allyriadau'r UE (ETS) i ildio eu lwfansau allyriadau ar gyfer blwyddyn y cynllun 2018.

Mae aelodaeth y DU yn ETS yr UE ar ôl Brexit yn ansicr. Mae Llywodraeth y DU yn rhoi cynlluniau at ei gilydd ar gyfer system prisio carbon y DU gyfan yn y dyfodol sy'n gysylltiedig ag ETS yr UE os cytunir ar gytundeb Brexit. Nodwyd yn yr **adroddiad ENDS** (erthygl y tu ôl i wal dalu), os bydd dim cytundeb, na fydd rhwymedigaethau masnachu allyriadau na threth garbon yn berthnasol i allyrwyr y DU yn ystod dau fis cyntaf 2019. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y bydd Llywodraeth y DU yn dileu'r angen i ildio lwfansau o 2019 ymlaen, er y bydd rhwymedigaeth o hyd ar y cwmnïau y mae hyn yn effeithio arnynt i fonitro, adrodd a dilysu eu hallyriadau.

## Pysgodfeydd

Ar 14 Chwefror, fe wnaeth y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar y pryd, George Eustice, **ysgrifennu at Bwyllgor Dethol Materion Tramor Tŷ'r Cyffredin** ynglŷn â pharatoadau ar gyfer cadw mynediad y DU at stociau pysgota allweddol yn achos Brexit dim cytundeb. Dywedodd:

> … to ensure that there is no gap in the UK's access to key fishing stocks, the UK applied to the North East Fisheries commission (NEAFC) on January 8th … The UK will also be applying to the North Atlantic Salmon Conservation Organisation (NASCO) along with fiver further multilateral fisheries agreements.





Ar 25 Chwefror, fe wnaeth George Eustice **ysgrifennu at gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin** i nodi canlyniadau ei bresenoldeb yn y **Cyngor Pysgodfeydd ac Amaethyddiaeth** ym mis Rhagfyr 2018.

Ar 27 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ddatganiad i'r wasg yn annog pysgotwyr i fod yn 'barod am Brexit'** drwy gofrestru gyda'r Sefydliad Morol Rhyngwladol (IMO). Mae hyn yn ofynnol o dan gynigion wrth gefn y Comisiwn Ewropeaidd i'w alluogi i roi mynediad i longau pysgota'r DU at ddyfroedd yr UE mewn amgylchiadau penodol ar ôl Brexit.

Ar 25 Mawrth, fe wnaeth Defra **gyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'w ymgynghoriad ar y Papur Gwyn Pysgodfeydd.**

## Gwarchod natur

Ar 20 Mawrth, cafwyd **Trydydd Darlleniad y Bil Masnach y**n Nhŷ'r Arglwyddi. Cytunwyd ar bedwar gwelliant, tri ohonynt gan Lywodraeth y DU ac un gan y gwrthbleidiau. Cytunwyd ar bob un o'r rhain heb bleidlais. Mae'r Bil bellach wedi dychwelyd i Dŷ'r Cyffredin i **drafod gwelliannau** (y broses ping-pong fel y caiff ei hadnabod).

Mae un o'r gwelliannau yn pennu'r meysydd lle mae angen cadw lefelau diogelu statudol y DU, gan gynnwys:

- diogelu bywyd neu iechyd anifeiliaid a phlanhigion;
- lles anifeiliaid; a
- diogelu'r amgylchedd.

## Gwastraff

Ar 25 Mawrth, fe wnaeth Llywodraeth y DU **gyhoeddi datganiad i'r wasg** yn atgoffa cwmnïau sy'n allforio gwastraff o'r DU i adolygu eu cynlluniau wrth gefn rhag ofn y byddant yn tarfu mewn porthladdoedd os bydd Brexit dim cytundeb. Dywedodd y datganiad i'r wasg, er y bydd yr holl gydsyniadau presennol sy'n awdurdodi allforio gwastraff peryglus neu wastraff rhestr werdd yn parhau i fod yn ddilys, y gall fod effeithiau ar allforio gwastraff o ganlyniad i newidiadau i reolaethau ar y ffin. Mae Llywodraeth y DU yn cynghori cwmnïau gwastraff i:

- adolygu eu capasiti ac asesu pa mor hir y gallant storio gwastraff ar eu safleoedd;
- canfod cyfleusterau storio amgen a allai dderbyn gwastraff;
- gweld a oes llwybrau allforio amgen i'r farchnad sy'n osgoi porthladdoedd yr effeithir arnynt;
- canfod unrhyw lwybrau adfer neu waredu amgen; a
- chysylltu â gweithredwyr cludiant i drafod unrhyw newidiadau posibl i gynlluniau trafnidiaeth.





# 4. Camau gan Lywodraeth Cymru

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 21 Mawrth, fe wnaeth y Gweinidog Ynni, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, **gyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar y rhaglen rheoli tir arfaethedig ar ôl Brexit yn y dyfodol.** Yn y datganiad, cyhoeddodd ei bwriad i gyhoeddi'r ddogfen ymgynghori nesaf cyn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf.

Hefyd, cyhoeddodd fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno ar **fecanwaith llywodraethu** o ran sut y caiff y pwerau ym **Mil Amaethyddiaeth y DU** sy'n ymwneud â Chytundeb Amaethyddiaeth Sefydliad Masnach y Byd eu defnyddio. Bydd y mecanwaith yn eistedd ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth. Dyma oedd yr un mater yr oedd y ddwy Lywodraeth yn parhau i anghytuno yn ei gylch mewn perthynas â'r Bil.

Ar 26 Ebrill, gosododd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU** (PDF 162KB). Mae angen i'r Memorandwm hwn adlewyrchu gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ystod Cyfnod y Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Pe byddai'r gwelliannau'n cael eu deddfu, byddent yn caniatáu:

- Ar gyfer cynllun newydd i ailddosbarthu cronfeydd Ardoll Cig Coch rhwng byrddau ardollau Cymru, Lloegr a'r Alban; ac
- I Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i leihau'r terfyn uchaf taliadau uniongyrchol ar gyfer 2020 a pharhau â thaliadau uniongyrchol ar ôl 2020.

Mae'r Memorandwm hefyd yn disgrifio'r mecanwaith llywodraethu y cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU arno mewn perthynas â Chytundeb Amaethyddiaeth Sefydliad Masnach y Byd, sy'n cael ei drafod uchod.

## Ynni

Ar 21 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun cyflawni ar gyfer lleihau allyriadau ar gyfer ei chyfnod cyllideb carbon cyntaf (2016-2020). Mae **Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel** yn edrych ar lwybrau, polisïau a chynigion ar gyfer lleihau allyriadau ar draws ystod eang o sectorau. Un maes y mae'n ei drafod yw cyfranogiad y DU yn y dyfodol yn ETS yr UE.

### Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol

Ar 18 Mawrth, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar **lywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Brexit.** Mae'n gofyn am farn ar gynigion i lenwi'r bwlch llywodraethu amgylcheddol yn absenoldeb swyddogaethau'r UE. Mae hyn yn cynnwys swyddogaethau monitro, adrodd a gorfodaeth y Comisiwn Ewropeaidd a Llys Cyfiawnder Ewrop ac egwyddorion amgylcheddol craidd y **Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.** Cyhoeddwyd **datganiad ysgrifenedig** ar yr un pryd â lansio'r ymgynghoriad.

### Fframweithiau cyffredin y DU

Ar 12 Chwefror, fe wnaeth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit, Jeremy Miles, **gyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin.**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU adrodd i Senedd y DU o bryd i'w gilydd ar faterion sy'n ymwneud â fframweithiau cyffredin a sut mae Llywodraeth y DU yn defnyddio pwerau o dan adran 12 o'r Ddeddf (y 'pwerau rhewi') i barhau dros dro â chyfyngiadau presennol cyfraith yr UE ar gymhwysedd datganoledig. Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw adroddiad o'r fath gael ei osod gerbron y Cynulliad o fewn diwrnod o gael ei osod yn Senedd y DU. **Gosodwyd yr ail adroddiad o'r fath yn Senedd y DU ar 7 Chwefror.**

Ar 4 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ddadansoddiad diwygiedig o'r Fframweithiau Cyffredin**. Mae hyn yn nodi'r cynnydd hyd yma wrth ddatblygu'r rhain, yn ogystal â newidiadau i'r dadansoddiad cychwynnol a gyhoeddwyd y llynedd.

### Offerynnau Statudol

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i osod Offerynnau Statudol a wneir o dan *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* i Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad eu didoli. Mae tudalen y Pwyllgor **yn rhestru'r Offerynnau Statudol a osodwyd hyd yn hyn;** mae llawer ohonynt yn y maes polisi amgylcheddol.





## 5. Camau gan Lywodraeth yr Alban

### Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 13 Chwefror, fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi Wledig, Fergus Ewing, **alw ar Lywodraeth y DU i ddarparu iawndal i ffermwyr** os bydd Brexit dim cytundeb.

Ar 13 Mawrth, fe wnaeth Llywodraeth yr Alban **gyhoeddi taflen ffeithiau ar sut y gallai Brexit effeithio ar economi wledig yr Alban.**

Ar 20 Mawrth, fe wnaeth Fergus Ewing **ail-bwysleisio bod taliadau uniongyrchol** yn cael eu gwarantu ar y lefelau presennol tan 2021 a'i fod yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am gadarnhad bod y warant gyllid hon yn cynnwys cyllid Colofn 2

### Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol

Ar 16 Chwefror, fe wnaeth Llywodraeth yr Alban **lansio ymgynghoriad ar lywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol yn yr Alban ar ôl Brexit.**

### Pysgodfeydd

Ar 4 Mawrth, fe wnaeth Llywodraeth yr Alban **gyhoeddi papur trafod ar ddyfodol rheoli pysgodfeydd yr Alban.**

# 6. Camau gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 6 ac **20 Mawrth,** clywodd y Pwyllgor gan amrywiaeth o randdeiliaid ar bynciau brandio bwyd a phrosesu bwyd fel rhan o'i ymchwiliad cyfredol, Ailfeddwl am Fwyd. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys strategaeth bwyd a diod ar ôl Brexit, enwau bwyd a warchodir gan yr UE a mynediad at lafur.

Yn ystod y **cyfarfod ar 6 Mawrth,** fe wnaeth y Pwyllgor hefyd holi Hybu Cig Cymru am agwedd ardoll y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer Bil Amaethyddiaeth y DU.

## Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol

Ar 14 Mawrth, cafodd Cadeirydd y Pwyllgor **ohebiaeth** (eitem 5.5) gan Lesley Griffiths ynghylch llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol. Roedd hyn mewn ymateb i lythyr gan y Cadeirydd **dyddiedig 28 Chwefror** (eitem 3.4). Mae hyn yn dilyn **llythyr blaenorol** (eitem 4.1) gan y Gweinidog ar 7 Chwefror ynghylch lywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol.

## Pysgodfeydd

Ar 12 Chwefror, cyhoeddodd y Pwyllgor **ei adroddiad** ynghylch **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Pysgodfeydd y DU**.

Fe wnaeth Lesley Griffiths **ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor** ar 13 Chwefror mewn ymateb i bryderon a godwyd yn ystod sesiwn dystiolaeth ym mis Ionawr, ac **ymatebodd i'r adroddiad** ar 27 Mawrth. Mae hi'n dweud ei bod yn credu ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau y mae'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â hwy ym Mil y DU i sicrhau dull y DU gyfan o greu'r fframwaith pysgodfeydd ar ôl Brexit. Serch hynny, mae hi hefyd yn nodi ei bod yn ystyried bod y darpariaethau yn rhai trosiannol nes bod y Llywodraeth yn cyflwyno ei Bil Pysgodfeydd Cymru ei hun yn y dyfodol.





## Gwarchod natur

Ar 7 a 21 Chwefror, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth fel rhan o'i ymchwiliad **Bioamrywiaeth - Cynllun Nwyddau Cyhoeddus.** Roedd yr ymchwiliad yn edrych ar sut gellid cymhwyso Cynllun Nwyddau Cyhoeddus arfaethedig Llywodraeth Cymru, a amlinellir yn y **Papur Gwyrdd Brexit a'n Tir** i adfer bioamrywiaeth.

Ar 14 Chwefror, cafodd Cadeirydd y Pwyllgor **ohebiaeth** (eitem 4.3) gan y Gweinidog ynghylch gwaith y Pwyllgor ar ddull gweithredu seiliedig ar ganlyniadau y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus.

# 7. Camau eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 22 Mawrth, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol **ei ail adroddiad ar gytundebau masnach rhyngwladol.** Mae hyn yn cynnwys adran ar amaethyddiaeth yng nghytundeb masnach y DU a'r Swistir.

## Pysgodfeydd

Ym mis Chwefror, fe wnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol **gyhoeddi ei adroddiad ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Pysgodfeydd y DU.**



**Yr Amgylchedd:** Adroddiad Monitro Brexit

# 8. Camau gan ddeddfwrfeydd eraill yn y DU

## Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 6 Chwefror, fe wnaeth Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig **gymryd tystiolaeth lafar am waith Defra** gan nifer o gynrychiolwyr Defra. Roedd y drafodaeth yn bennaf ynghylch pa mor barod yw Defra ar gyfer gwahanol senarios Brexit.

Ar 13 Chwefror, fe wnaeth Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin **gymryd tystiolaeth lafar** gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer Defra, Clare Moriarty, ar baratoadau'r Adran ar gyfer Brexit dim cytundeb, fel rhan o drafodaethau ei ymchwiliad **Brexit a Ffiniau'r DU.**

Fe wnaeth y Pwyllgor **gyhoeddi adroddiad** fel rhan o'r gwaith hwn ar 11 Mawrth. Daeth i'r casgliadau a ganlyn: "Defra have been, and remain, over-optimistic in their preparations for a no deal Brexit" a "we are concerned by Defra's admission there could be reductions in the availability and choice of some foods".

Trafododd Tŷ'r Cyffredin Brexit ac amaethyddiaeth sawl gwaith yn ystod mis Mawrth: ar **18 Mawrth; 19 Mawrth; 20 Mawrth;** a **28 Mawrth.**

Ar 19 Mawrth, cafwyd **dadl yn Nhŷ'r Arglwyddi ynghylch tariffau ffermio ar ôl Brexit.** Dywedodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, yr Arglwydd Gardiner:

> In agriculture, there will be tariff rate quotas for beef, poultry, sugar and rice, as well as tariffs for lamb, pigmeat, butter and cheddar-type cheeses. Further tariffs will be retained on products such as bananas, where preferential access to the UK market is important for developing countries. This tariff regime would apply for up to 12 months.

### Ynni a newid hinsawdd

Ar 6 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ganllawiau** ar ynni a newid hinsawdd ar ôl Brexit. Ymysg pethau eraill, mae'r canllawiau'n ymdrin â'r canlynol:

- ETS yr UE;
- marchnad drydan y DU;
- y farchnad drydan sengl yng Ngogledd Iwerddon, a
- phŵer niwclear.

Ar 11 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **ganllawiau** ynghylch bodloni gofynion newid hinsawdd os bydd Brexit dim cytundeb.

### Pysgodfeydd

Ar 8 Chwefror, cyhoeddodd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi ei adroddiad: **Fisheries: implementation and enforcement of the EU landing obligation.**

Ar 20 Chwefror, fe wnaeth Tŷ'r Cyffredin **drafod Brexit a dyframaeth.**

Ar 13 Mawrth, fe wnaeth Tŷ'r Cyffredin **drafod Brexit a physgota.**

### Gwarchod natur

Ar 27 Mawrth, yn ystod **tystiolaeth lafar i Bwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig,** dywedodd Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Michael Gove, fod Defra wedi penodi swyddog i gofnodi achosion o dorri cyfraith amgylcheddol nes bod y Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn cael ei sefydlu ar ôl Brexit.

### Fframweithiau cyffredin y DU

Ar 25 Mawrth, cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban ei **adroddiad ar fframweithiau cyffredin,** Mawrth 2019





## 9. Ffynonellau allweddol eraill

### Ansawdd aer

Brexit and Environment academic network, **Air quality law for the future: Fixing the fundamentals,** Chwefror 2019

Brexit and Environment academic network, **Four approaches to urban air pollution after Brexit,** Chwefror 2019

### Amaethyddiaeth a bwyd

AHDB, **Report on Brexit prospects for UK beef and sheep meat trade,** Chwefror 2019

Centre on Constitutional Change, **Agriculture Faces Uncertain Future after Brexit,** Chwefror 2019

Centre on Constitutional Change, **The repatriation of competences in agriculture after Brexit,** Mawrth 2019

Centre on Constitutional Change, **GM foods, the US-UK Trade Negotiations and Scottish Food Production: A Heady Mix,** Mawrth 2019

FoodDrinkEurope, **Letter to the European Commission calling for contingency measures in the event of a no deal Brexit**, Ionawr 2019

Greener UK, **Commons Report Stage of the Agriculture Bill Briefing for MPs,** Mawrth 2019

Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi, **Briefing paper on the theory and practice of tariffs,** Mawrth 2019

Llyfrgell Tŷ'r Arglwyddi, **Adroddiad Pwyllgor yr Undeb Ewropeaidd: Brexit: Food Prices and Availability,** Mawrth 2019

NFU Cymru, **Brexit Update,** Chwefror 2019

SPICe Briefing, **Agriculture and Land Use - Public money for public goods?,** Chwefror 2019

RSPB Cymru, **Ffermio, yr amgylchedd ac ucheldiroedd Cymru,** Mawrth 2019

The UK in a Changing Europe blog, **No deal would have a severe impact on farmers, food and the environment**, Chwefror 2019

The UK in a Changing Europe blog, **Brexit: farming on the edge?,** Chwefror 2019

## Ynni a newid hinsawdd

Brexit and Environment academic network, **The repatriation of competences in climate and energy policy after Brexit,** Chwefror 2019

Sefydliad Materion Cymreig, **A plan for Wales' renewable energy future: Essential actions to re-energise Wales by 2035,** Mawrth 2019

The UK in a Changing Union blog, **The repatriation of competences in climate and energy policy after Brexit,** Chwefror 2019

## Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol

Brexit and Environment academic network, **Environmental governance in Scotland: An analysis of the Scottish Government's consultation**, Chwefror 2019

Brexit and Environment academic network, **Post-Brexit environmental governance in Wales: A review of the Welsh Government's consultation,** Mawrth 2019

Brexit and Environment academic network, **Reality bites: The implications of scrutiny-free environmental law reform in Northern Ireland after Brexit,** Mawrth 2019

Centre on Constitutional Change, **Environmental governance in Scotland: An analysis of the Scottish Government's consultation,** Chwefror 2019

Greener UK, **The funding of the Office for Environmental Protection**, Mawrth 2019

Greener UK blog, **Time is running out for Wales to protect its environment after Brexit,** Mawrth 2019

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Briefing paper - Environmental principles and governance: the draft Bill,** Mawrth 2019

UCL European Institute, **The next generation of environmental law: Environmental accountability and beyond in the draft Environment (Principles and Governance) Bill,** Mawrth 2019





## Pysgodfeydd

Senedd Ymchwil, **Bil Pysgodfeydd y DU 2017-19: Crynodeb o'r Bil,** Ionawr 2019

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **Fisheries and Brexit,** Mawrth 2019

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, **The Fisheries Bill 2017-19,** Mawrth 2019

The National Federation of Fishermen's Organisation, **Battle over Maximum Sustainable Yield,** Chwefror 2019

The National Federation of Fishermen's Organisation, **Fishermen urged to be Brexit ready by registering with the IMO,** Mawrth 2019

Seafish, Mawrth 2019:

- **UK Seafood Industry Guide Preparing your business for EU Exit**
- **Challenges for UK shellfish exporters**
- **UK-EU seafood trade under World Trade Organisation conditions**
- **UK international seafood trade (EU and non-EU trade)**
- **UK export trade and markets for selected shellfish species**
- **UK seafood industry response to WTO conditions – UK shellfish exporters and others**

SPICe Briefing, **Inshore fishing,** Chwefror 2019

The UK in a Changing Europe blog, **What does a no deal Brexit look like for fishing?,** Chwefror 2019

## Gwarchod natur

Brexit and the Environment academic network, **Interview: Charlotte Burns speaks to Environmental Politics about Brexit,** Chwefror 2019

Greener UK blog, **How Brexit is already watering down environmental protections,** Mawrth 2019

Institute for European and Environmental Policy, **Environmental policy risks and opportunities of different outcomes from the Brexit negotiations,** Chwefror 2019

## Eraill

Brexit and the Environment academic network, **Will the Environment Bill be a force for greener planning?,** Chwefror 2019

ENDS Report. **What a Brexit delay would mean for the environment,** Mawrth 2019

Greener Alliance blog, **The message is clear, people want an ambitious Environment Bill**, Mawrth 2019

Greener Alliance blog, **What would 'Norway' mean for nature laws?,** Mawrth 2019

Greener Alliance blog, **There is no 'green Brexit' in no deal**, Ebrill 2019

Greener UK, **Why the Environment Bill must enable a strategic approach to environmental planning,** Mawrth 2019

Greener UK, **Recommended environmental improvements to the UK government's Brexit plans,** Mawrth 2019

New Economics Foundation, **A green new deal for the UK,** Ebrill 2019